# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 12ed o Fedi, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**YN BRESENNOL:**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW);** Sara Williams **(SW);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Osian Hugh Williams **(OHW);** Olwen Roberts **(OR)**. |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2023** |
| | **a) CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJ gyda GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b) MATERION YN CODI**<br><br>**i. Arwyddion Lôn Rhosydd**<br>Er gwaethaf ail adrodd sylwadau'r Cyngor am y gwir angen i arwyddo bod cerddwyr ar Lon Rhosydd, yr unig welliannau effeithiol oedd yr Uwch Beiriannydd yn teimlo y gallai weithredu arno oedd cyffordd ar y B4417 gan fod hwn yn ffordd gyflym (60mya). Gyrrwyd cynllun arfaethedig i'r aelodau fis Awst. Gohebwyd ymhellach yn cyhoeddi ei fod wedi cychwyn y cynllun er nad oedd sylwadau'r aelodau wedi ei gyrru.<br>Gan nad oedd hyn yn ymateb i'r broblem ar Lon Rhosydd, y clerc i ail adrodd y gwyn<br><br>**ii. Y llain tir trwy'r pentref (Ceir yn parcio a'i droi yn fwd)**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor yn adrodd bod y Cyngor yn ystyried y tir fel rhan o'r briffordd, ac yn benodol fel ymylon gwyrdd sy'n ffurfio a gwarchod y lleiniau gweledig o'r ffordd gyfagos.<br><br>**iii. OR - angen barbio lonydd Llithfaen**<br>Gyrrwyd y cais ymlaen i'r Cyngor Sir yn hysbysebu pryderon am gôr dyfiant ar y palmentydd a'r waliau sydd yn rhwystro cerdded ac yn creu problemau diogelwch i deuluoedd gyda phramiau.<br>Wedi ei wneud - GJ am adrodd y gôr dyfiant ar y wal i gyfeiriad Nefyn i'r tîm tacluso.<br><br>**iv. Meinciau Pistyll a Llithfaen**<br>Nid oedd OHW yn bresennol i gynnig diweddariad am feinciau Pistyll<br>GJLJ Mainc Carnguwch wedi torri - SP yn adrodd bod poteli cwrw wedi torri wrth y fainc a chwynion am yfed dan oed. Y clerc i adrodd i'r rhingyll, GJ i adrodd i'r tim tacluso.<br><br>**v. Diffiblwr Pistyll**<br>Cadarnhaodd y clerc nad oedd posib gwneud cais i'r Gronfa Datblygu Gynaliadwy nac AHNE am nawdd tuag at yr ymgyrch codi arian. |

Adroddodd Gethin Jones ei fod wedi sefydlu Crowd Funding Page sef:
https://www.justgiving.com/crowdfunding/gethin-jones-1?utm_id=2&utm_term=KrabRzNyV
Y clerc i ofyn i Gwilym Williams os bydd modd derbyn nawdd gan Elusen Pistyll - JG am lythyru a thrigolion Pistyll.

**vi. Cynnig gan Gethin Jones i geisio newid rheolau Tai Teg**

Adroddodd JG ei chynnig ger Cyngor Gwynedd sef:
"Mae asiantaeth Tai Teg yn gyfrifol am 'roi gwybodaeth a chefnogaeth am gynlluniau Tai Fforddiadwy yng Ngwynedd ar ran Cyngor Gwynedd.'[i] Gan fod nifer o gynlluniau, noder mai Cymorth Prynu a Hunan-adeiladu yw ffocws y Cynnig hwn.

Partneriaid Tai Teg (yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cynefin, Adra) sydd yn gyfrifol am osod amodau cofrestru gyda'r asiantaeth. Mae nifer o'r amodau hyn ar hyn o bryd yn rhwystro pobl leol rhag cael mynediad i'r Cynllun, a hyn yn cyfrannu at yr argyfwng Tai lleol.

Galwn ar Gyngor Gwynedd i adolygu'r amodau cofrestru 'Tai Teg' isod er mwyn hwyluso mynediad pobl ifainc lleol at gartrefi yn eu bro:

i. Cryfhau'r diffiniad 'lleol' (dim ond 12mis ar hyn o bryd) i fod yn gyfartal â gofynion cyffredinol Cyngor Gwynedd ac yn wydn i amddiffyn cymunedau dan fygythiad;
ii. Diffinio'n fanwl beth yw 'cartref digonol' er mwyn i bawb deall union gymwysterau a gofynion y cynlluniau hyn. Y gofyn ar hyn o bryd yw: ' Bydd rhaid ichi allu dangos i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig/awdurdod lleol un nai nad yw'ch cartref yn ddigonol neu na allwch bellach fforddio byw yn eich cartref presennol'.

Galwn hefyd ar Asiantaeth Tai Teg i ymchwilio ar y cyd gyda swyddogion Peilot Dwyfor i weld oes modd cynorthwyo'r nifer o bobl sydd wedi gorfod prynu cartref cyntaf tu allan i'w bro oherwydd prisiau uchel ond sydd yn dymuno dychwelyd."

Adroddodd GJ ei bod yn parhau i gasglu tystiolaeth, bydd yn cyfarfod gyda Chyfreithwyr y Cyngor Sir yn fuan er mwyn drafftio cynnig terfynol.

**vii. Carnguwch - cynnig creu coetir – ymgynghoriad**

Adroddodd y clerc ymateb gan y Rheolwr Coedwig yn adrodd:

a) Bydd y llinell gyntaf o goed / llwyni yn cael eu plannu tua 2 - 2.5 metr i ffwrdd o unrhyw ffens derfyn. Bydd yn rhaid cynnal hyn i sicrhau'r dwysedd plannu cywir i'r cynlyn yma.
b) Rydym wedi ymgynghori a Dŵr Cymru a byddwn yn cynnal y byffer priodol heb ei blannu o unrhyw beipiau carthffosiaeth.
c) Un o'r amcanion y cynllun creu coetir hwn yw creu cynefin ar gyfer fflora a ffawna, felly efallai fyddo yn gartref i rywogaethau amrywiol o anifeiliaid sy'n frodorol i'r ardal leol.
d) Gan fod y cynllun hwn yn uwch na 5Ha, mae rhwymedigaeth arnom i ymgynghori ar gyngor cymuned leol. Mae'n rhaid i ni hefyd ymgynghori ag unrhyw dirfeddiannwr cyfagos y gallai'r cynllun hwn effeithio arno.

**viii. Cais i wirio arwyddion llwybrau Carnguwch**

Gyrrwyd y cais ymlaen i'r Cyngor Sir

**ix. Cais am Lwybr o Gapel Isaf i Dyn Cae**

Derbyniwyd gohebiaeth gan y Rheolwr Traffig a Phrosiectau yn cadarnhau y byddai swyddogion yn edrych i mewn i'r mater yn fuan cyn cyflwyno ymateb swyddogol i'ch cais.

**x. OW - Cais am dwmpathau cyflymder ar gyfer Pistyll**

Adroddodd y clerc ymateb y Cyngor Sir yn hysbysebu bod y Llywodraeth Genedlaethol yn dod a chyfyngiadau cyflymder newydd i rym ar strydoedd sydd wedi ei goleuo i lawr o 30mya i 20mya erbyn Medi 2023. Mae'r gwasanaeth y hyderus caiff y gostyngiadau yma effaith positif ar gyflymder traffig ac o ganlyniad gwella'r diogelwch i holl ddefnyddwyr ein rhwydwaith.

| | |
|---|---|
| | Maent yn awyddus i weld os yw'r cyfyngiadau newydd yn effeithiol cyn bwrw ymlaen gyda mesuriadau ffisegol a all mewn blwyddyn ymddangos i fod yn ddiangen. O ganlyniad mae'n bwysig i ni bwyso a mesur difrifoldeb o'r lleoliad cyn gwneud penderfyniad ar hyn.<br><br>Yn ogystal mae'n bwysig i mi eich hysbysu, yn anffodus nid oes gan y gwasanaeth cyllid wedi ei neilltuo i roi twmpathau yn gyffredinol ar ein rhwydwaith. Hefyd nid yw Lywodraeth Cymru wedi gwneud y gwasanaeth yn ymwybodol bod arian grantiau ar gael i ni yn y flwyddyn gyllidol 2024-25 i ni gyflawni'r math yma o waith yn symud ymlaen.<br><br>Y clerc i atgoffa'r Cyngor am yr addewid i gael twmpathau ochor Pistyll y pentref. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Lois Fychan pwynt 6 |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Mainc Carnguwch angen ei atgyweirio |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais/App Ref: C23/0543/43/LL - Gwynus Caravan Park, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LY**<br><br>Cais llawn i uwchraddio Parc Carafanau presennol trwy leoli pum caban newydd, cadw'r ffordd fynediad dros dro a chreu cae chwarae - **Dilyn a Darganfod**<br><br>Dim gwrthwynebiad<br>Y clerc i ail yrru cais am 28 diwrnod i ymateb a 2 fis yn ystod yr haf. |
| **7.** | **YMDDIRIEDOLAETH TIR BRO'R EIFL** |
| | Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan yr ymddiriedolaeth yn esbonio yn dilyn cyfarfod diweddar o bwyllgor yr ymddiriedolaeth tir gofynnwyd i mi ysgrifennu atoch i gynnig dod draw i egluro beth yw'r ymddiriedolaeth tir mewn cyfarfod o'r Cyngor. 'Rwyf yn fwy na bodlon i ddod draw mis Hydref yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad. Edrychaf ymlaen am eich ymateb.<br>Y clerc i ymestyn gwahoddiad iddo i gyfarfod yr Hydref |
| **8.** | **GJ - LON GROES / BWLCH GWYNT ROAD** |
| | Adroddodd GJ bod gohebiaeth wedi ei dderbyn gyda chamgymeriad pellach yng ngham enwi Lon Groes yn Fwlch Gwynt Road Y clerc i gysylltu ag Swyddog Enwau Lleol y Cyngor Sir |
| **9.** | **OR - TWLL YN LÔN O FLAEN MYNEDFA CARNGUWCH BACH A HEFYD FAINC AR DOP LÔN RHOSYDD ANGEN EI THRWSIO.** |
| | Er gwybodaeth adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru sylwadau OR ymlaen i'r Cyngor Sir<br>Adroddodd yr aelodau nad oedd dim wedi ei wneud hyd yn hyn – Clerc i gysylltu ymhellach |
| **10.** | **OR – CROGCHWYN GER Y CAE CHWARAE A LON RHOSYDD** |
| | Y clerc i yrru sylwadau'r Cyngor ymlaen i'r Cyngor Sir. |

| | |
|---|---|
| **11.** | **CYNNIG YR ADRAN PRIFFYRDD - CYFFORDD AR Y B4417** |
| | Er gwaethaf ail adrodd sylwadau'r Cyngor am y gwir angen i arwyddo bod cerddwyr ar Lon Rhosydd, yr unig welliannau effeithiol oedd yr Uwch Beiriannydd yn teilmlo y gallai weithredu arno oedd cyffordd ar y B4417 gan fod hwn yn ffordd gyflym (60mya). Gyrrwyd cynllun arfaethedig i'r aelodau fis Awst. Gohebwyd ymhellach yn cyhoeddi ei fod wedi cychwyn y cynllun er nad oedd sylwadau'r aelodau wedi ei gyrru.<br><br>Y clerc i ddiolch a'r gwaith a phwysleisio pwysigrwydd yr arwyddion ar Lon Rhosydd. |
| **12.** | **LLWYBR ANGEN TORIAD YM MHISTYLL** |
| | Er gwybodaeth, adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cwyn gan OHW am gyflwr llwybr ym Mhistyll. Roedd wedi ei adrodd i Brif Swyddog y Llwybrau oedd bellach wedi cadarnhau ei fod wedi ei gynnwys yn y rhestr am flwyddyn nesaf a bod y gwaith wedi ei wneud ers canol mis Gorffennaf. |
| **13.** | **MYNWENT LLITHFAEN** |
| | Adroddodd y clerc gais gan Arwyn O Hughes.<br>Mae angen sylw brys at ei thacluso. Nid oes fond rhan ohoni yn cael ei thorri ar ran arall yn cael ei gadael heb ei neud, ac fel un sydd â theulu wedi cael eu claddu ynddi nid oes modd mynd at y beddi gan fod y gwellt a mieri yn tyfu yn wyllt ac yn fawr trwyddi. Mae'r coed oddi ei hamgylch hefyd angen eu torri a'u tacluso, a hefyd cyflwr y waliau cerrig angen sylw hefyd.<br>Rwyf yn ymwybodol mai cyfrifoldeb Capel M.C Llithfaen ydi gwylio ar ei hôl, ond bellach ni allent hwythau neud y gwaith a bod yn gyfrifol amdani!<br>Felly gofynnaf yn daer i Gyngor Cymuned Pistyll gymryd y cyfrifoldeb, a rhoi ychydig o barch i'r rhai sydd wedi eu claddu ynddi drwy neilltuo swm o arian teilwng i'w thacluso ac edrych ar ei hôl yn flynyddol.<br>Carwn ichi roi blaenoriaeth brys at y mater yma.<br>Byddaf yn ddiolchgar am eich ymateb.<br>Y clerc i adrodd y gwyn i Dafydd Roberts (Capel Llithfaen) |
| **14.** | **GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (CAU LLWYBR CEFFYL CYHOEDDUS PISTYLL RHIF 27)** |
| | Dim sylwadau |
| **15.** | **RHAGLEN WAITH MIS MEDI CYNGOR GWYNEDD – SAFLE BWS PISTYLL – CERBIO** |
| | Cefnogol |
| **16.** | **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU** |
| | Rhannodd JG ddiweddariad gan Gomisiynydd y Gymraeg ac ymateb y sefydliad sef:<br>Mae'r sefydliad yn esbonio bod ganddynt bolisi iaith Gymraeg sy'n dangos ymrwymiad i reoli eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, maent yn esbonio hefyd nad ydynt yn gorff cyhoeddus ond eu bod yn ceisio bodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg drwy eu polisi iaith Gymraeg.<br><br>Yn ôl eu hymateb, maent yn defnyddio 11 o hyfforddwyr cysylltiedig ac mae tri ohonynt yn ddwyieithog, maent yn esbonio eu bod yn cynnig hyfforddiant yn y ddwy iaith. Yn ôl Un Llais Cymru, mae pob un o'u 21 modiwl hyfforddiant ar gael yn y naill iaith a'r llall ac maent yn cynnwys gweminarau yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn rhaglen barhaus.<br><br>Darparodd Un Llais Cymru wybodaeth am y modd yr ariennir y cyrsiau yma. Er eu bod yn derbyn grant refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru, nid yw hynny yn ddigon ar ei ben ei hun i gwrdd â'u costau. Yn ôl y sefydliad, |

| | |
|---|---|
| | incwm o gyrsiau hyfforddiant yw un o'u prif ffynonellau ariannol. Maent yn esbonio eu bod yn cynnig dewis eang o weminarau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond maent yn gorfod canslo rhai sesiynau oherwydd diffyg archebion ac maent yn cydnabod eu bod yn cynnig mwy o sesiynau yn Saesneg oherwydd y galw a'r sefyllfa ariannol. Yn ôl y wybodaeth a dderbyniwyd, mae angen bod tair archeb er mwyn i sesiwn fod yn hyfyw yn ariannol hy adennill costau'r sefydliad.<br><br>Wrth ymateb fe wnaeth y sefydliad dynnu sylw at ddarpariaeth bellach ar gyfer hyfforddiant trwy'r Gymraeg a'u bod yn darparu 'gweminarau pwrpasol' lle mae cyngor neu grŵp o gynghorwyr yn dymuno trefnu sesiwn hyfforddiant penodol ar gyfer cynghorwyr. Yn ôl Un Llais Cymru, maent wedi trefnu nifer o sesiynau felly ar gyfer grŵp o gynghorwyr ar Ynys Môn.<br><br>Maent yn nodi eu bod yn awyddus iawn i gwrdd ag anghenion eu haelodau drwy gysylltu'n fwy rheolaidd gyda'r cynghorau yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am y cyfleoedd sydd ar gael a'r modd y gellir gwneud cais am sesiynau hyfforddiant pwrpasol.<br><br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn gohebiaeth yn gynharach yn y dydd yn hysbysebu nad oedd cynnig y Cyngor wedi ei ychwanegu i raglen cyfarfod flynyddol Un Llais Cymru.<br><br>Rhannwyd manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn Medi 2023.<br><br>Mae 2 fodiwl craidd wedi ei pharatoi yn y Gymraeg am y mis sef-<br><br>12/09/2023 Dydd Mawrth Cod Ymddygiad - Modiwl 9 - YN GYMRAEG 2.00-3.30pm<br><br>28/09/2023 Dydd Iau Y Cyngor Fel Cyflogydd - Modiwl 3 - YN GYMRAEG 2.00-3.30pm<br><br>Esboniodd ymhellach os bydd 3 cynghorydd yn datgan bwriad I fynychu cwrs neilltuol drwy gyfrwng y Gymraeg byddent yn gwneud trefniadau eu paratoi. |
| **17.** | **ICO – DEDDF RHYDDID GWYBODAETH** |
| | Ffi diogelu data – amser adnewyddu – casglu'ch taliad debyd uniongyrchol<br><br>Bydd eich cofrestriad fel rheolwr data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (Deddf 1998) yn dod i ben ar 24 Medi 2023. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol ichi naill ai:<br><br>• adnewyddu'ch cofrestriad, neu<br>• ganslo'ch cofrestriad os yw'ch amgylchiadau wedi newid ac nad oes angen ichi gofrestru mwyach.<br><br>Newidiadau yn y gyfraith<br>Ar 25 Mai 2018, daw cyfundrefn newydd ynglŷn â diogelu data i rym. Bellach ni fydd yn ofynnol ichi 'hysbysu' na thalu ffi o dan Ddeddf 1998, ond fe fydd yn ofynnol ichi dalu ffi diogelu data newydd o dan Reoliadau Diogelu Data (Taliadau a Gwybodaeth) 2018.<br><br>Newidiadau yn y ffi<br>O dan y rheoliadau newydd, rydych yn dal yn gorfod talu ffi flynyddol, sy'n dibynnu ar eich maint neu eich trosiant, ond bydd y ffi bellach yn £40, £60 neu £2900. Ni fydd TAW yn daladwy.<br><br>Byddent yn adnewyddu'r cofrestriad yn awtomatig, gan gymryd y ffi newydd pan fo'n ddyledus. Cewch ostyngiad awtomatig blynyddol o £5 hefyd bob tro y byddwch yn talu drwy ddebyd uniongyrchol. |
| **18.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Nid oedd llawer o newyddion i'w rannu oni bai bod ymgyrch codi arian yn parhau ond yn anffodus bod deg gwaith mwy o geisiadau a grantiau nac arian i'w rannu. |

| | |
|---|---|
| **19.** | **MAES PARCIO'R EIFL** |
| | Adroddodd y clerc bod y Gofrestrfa Tir bellach wedi cofrestru'r Cyngor fel perchennog yr eiddo uchod gan nodi mai teitl meddiannol (*possessory title*) sydd ganddynt gan nad oedd y gweithredoedd gwreiddiol yn gyflawn.<br>Amlinellwyd yng nghohebiaeth y cyfreithiwr opsiynau ynghylch mater a godwyd gan Ms Einir Young, ac I'r Cyngor gytuno, mewn egwyddor, i ffurfioli'r sefyllfa drwy roi hawl tramwy cyfreithiol iddi dros y trac neu ei werthu iddi. Gofynodd am sylwadau pellach I symud ymlaen.<br><br>Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor rhoi hawl tramwy cyfreithiol yn ddibynnol ar dderbyn argymhellion parthed difrod. |
| **20.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) OR – Angen arwydd yn giât Gors Lwyd – Please shut the gate<br>b) EW - Pant yn y lon wrth Wynfa wedi gwaethygu<br>c) JG - Cilia Isaf wedi cael 28 diwrnod i symud y garafán – dim caniatâd i osod carafán<br>d) SP – Son yn y pentref am swm o arian yn gronfa y Cyngor Cymuned wedi ei dderbyn gan Capel Uchaf – pres i wneud fynwent – Y Clerc i wneud ymholiadau<br>e) SP - Cwynion wedi ei derbyn am yr arwyddion y Vic ar gornel y ffordd - cytunodd drafod gyda'r Vic<br>f) SP – Cwynion pellach wedi ei derbyn am y gysgodfa bws yn Llithfaen ac ei bod yn beryg bywyd tynnu allan i'r lon. Cytunodd yr aelodau wneud cais i'r Cyngor Sir bod cysgodfa Llithfaen Isaf gael ei defnyddio i'r ddwy ffordd.<br>SP - Er gwybodaeth bydd cyfarfod gyda John Morris nos Iau 6.30 14/09/23 ar sut i reoli traffic yn Llithfaen Cytunodd GJ ei hysbysebu ar FB y Cyngor |
| **21.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a) <u>Y GRONFA DATBLYGU GYNALIADWY</u>**<br><br>**b) <u>PETHAU BYCHAIN - DIGWYDDIAD NESAF - 27AIN MEDI 2023 @11AM & 27AIN MEDI 2023 @6.30PM</u>**<br><br>**c) <u>YMGYNGHORIAD AR RADDFEYDD FFIOEDD 2024-25 – ARCHWILIO CYMRU</u>**<br><br>**d) <u>CYFARFOD CYHOEDDUS - AMBIWALANS AWYR YSGOL GLAN Y MOR PWLLHELI AR DYDD MERCHER HYDREF 18FED AM 18.30 - 19.30.</u>**<br><br>**e) <u>DIGWYDDIAD AR Y CYD RHWNG UN LLAIS CYMRU / SLCC – DYDD MERCHER 8 TACHWEDD 2023</u>**<br><br>**f) <u>CYNHADLEDD BLYNYDDOL AC CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU - AR FAES Y SIOE AMAETHYDDOL AR DDYDD SADWRN 30 MEDI</u>**<br><br>**g) <u>HOLIADUR CYMUNEDAU – CYNGOR GWYNEDD</u>**<br><br>**h) <u>ERTHYGL 4</u>**<br><br>**i) <u>Y GRONFA PERCHNOGAETH GYMUNEDOL - ROWND 3 FFENESTR 1</u>**<br><br>**j) <u>VINCENT MEARS – CAIS AM WYBODAETH PARTHED Y GEIFR</u>**<br><br>**k) <u>RHYBUDD - CAU FFORDD Y B4417 YM MHISTYLL GER PARC GWYLIAU ABERAFON - 2IL O DACHWEDD, 2023</u>**<br><br>**l) <u>ADDURNO'N FFYRDD AR GYFER EISTEDDFOD LLYN AC EIFIONYDD 2023</u>** |

| | |
|---|---|
| | **m) <u>YMATEB - CARNGUWCH - CYNNIG CREU COETIR – YMGYNGHORIAD</u>**<br><br>**n) <u>COEDWIG GENEDLAETHOL I GYMRU</u>**<br><br>**o) <u>GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (AMRYW FFYRDD SIROL, ARDAL DWYFOR) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 M.Y.A.)</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu |
| **22.** | **CYLLID** |
| | **a) <u>CYSONIAD 2023/24</u>**<br>Cynnigwyd y cynsoniad yn gywir gan gyda yn eilio<br><br>**b) <u>CYFRIFLEN BANC</u>**<br><br>**<u>CYFRIF CYFREDOL - 01 o Awst i 31 o Awst 2023</u>** |

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£13,635.23** |
| Derbyniadau | + | £6,000.00 |
| Gwariant | - | £564.67 |
| Balans Cau | = | **£19,070.56** |

**<u>CYFRIF CADW - 07 Fai i 6ef o Fedi 2023</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £2,671.02 |
| Derbyniadau | + | £19.97 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£2,690.99** |

**c) <u>TALIADAU I'W CYMERADWYO</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Gillian Thomas | 201285 | £ 268.50 |
| Cyngor Gwynedd | 201286 | £ 240.00 |
| A. Hughes Jones Dyson | 201287 | £ 216.00 |
| Un Llais Cymru | 201288 | £ 111.00 |
| | = | **£ 835.50** |

| | |
|---|---|
| **23.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 10fed o Hydref 2023 – Capel Isaf, Llithfaen – I gychwyn am 7y.h |